

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 3ydd 2015 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Gethin Morris (Cadeirydd), Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Tina Davies, Dewi Pritchard, Eifion Davies a Gwenda Evans, Alwyn Roberts, Maldwyn Jones, Gwenda Morris, Gary Thomas, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## **Datgan Buddiant.**

Nodwyd buddiant y cynghorwyr wrth y ceisiadau ariannol perthnasol.

## **Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

### Wal gynnal mynwent Llanfor.

Roedd y clerc wedi gwneud ymholiadau gyda'r cwmni yswiriant a chafwyd amcan bris o'r gost o yswirio wal y fynwent a ffens y cae chwarae. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â chwmnïau arbenigol i gael eu cyngor am y gost o ail godi'r wal ar gyfer yr yswiriant.

### Graeanu ffyrdd.

Yn dilyn ein cwynion ym mis Chwefror derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn egluro eu polisi graeanu a'i nod i ddarparu gwasanaeth rhesymol ac ymarferol.

### Llywodraeth Cymru – Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.

Trafodwyd cynnwys y Papur a chytunwyd y byddai'r cadeirydd a'r clerc yn cwblhau'r ffurflen ymateb ar ran y Cyngor ar ôl iddynt fynychu'r cyfarfod yn yr Henblas.

### Cyngor Gwynedd - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Gwynedd a Môn – y Cynllun Adnau.

Trafodwyd amcanion y Cynllun a pharatowyd sylwadau i'r clerc gynnwys yn y ffurflen ymateb ar ran y Cyngor.

## **Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Partneriaeth Penllyn / Cwmni Pum Plwy Penllyn

- i) Derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.
- ii) Derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod yng Nghanolfan yr Henblas, 9/3/15 i drafod Papur Gwyn y Llywodraeth. Cytunodd y cadeirydd fynychu'r cyfarfod gyda'r clerc.

### b) Cyngor Gwynedd.

- i) Rhaglen Waith yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Ionawr 2015.

### c) Un Llais Cymru

- i) Derbyniwyd gwybodaeth am y digwyddiad ar y Cyd rhwng Un Llais Cymru/SLCC ym mis Mai.

### ch) Amrywiol

- i) Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd – Copïau o'r Newyddlen Gaeaf 2014/15
- ii) Panel Annibynnol Cymru - Cafwyd cadarnhad bod eu hadroddiad diweddaraf wedi cael ei gyhoeddi a thrafodwyd y newidiadau a'r hawl i dalu costau aelodau o'r cynghorau cymuned a thref.

## Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w cefnogi:-

NP5/72/227A - Diwigio lleoliad mewnlfif a llwybr llifddor rannol ddiwygiedig i'r cynllun pŵer trydan dwr a gymeradwywyd. Nant y Llyn, Y Bala.

C15/0067/04/LL – Codi tyrbin gwynt 30.5m Coed y Foel Uchaf, Frongoch.

C15/0065/04/LL - Creu compownd ar gyfer tri thanc nwy LPG. Parc Carafannau Llawr y Betws, Glanrafon.

NP5/63/237A - Adnewyddu caniatâd cynllunio ar gyfer mast 7.5m ac adeilad cyfarpar. Ciltalgarth, Frongoch.

## Materion Ariannol.

### Gwefan y Cyngor

Cafwyd cadarnhad bod y grant tuag at wefan newydd y Cyngor Cymuned wedi cael ei dalu i mewn i'r banc.

### Cais ariannol Cwmni Pum Plwy Penllyn.

Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at ddatblygu gwasanaeth cynghori gofal a lles Canolfan yr Henblas. Trafodwyd y cais a chytunwyd yn unfrydol nad oedd y Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i gyfrannu'n ymhellach i'r Ganolfan.

### Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog y cleric (Ion i Fawrth)

CTHEM (TWE)

Ciltalgarth (torri glaswellt ym mynwenydd Frongoch a Llanfor)

John Roberts (Archwilydd Mewnol)

Un Llais Cymru (Tal aelodaeth)

Costau llogi Neuadd Llandderfel

Costau llogi Neuadd Mynach

Costau llogi Neuadd Sarnau

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r canlynol :-

Neuadd Sarnau -

Neuadd Mynach

Neuadd Llandderfel (Maldwyn Jones yn datgan diddordeb)

Ysgol Bro Tryweryn

Ysgol Ffridd y Llyn (Gwenda Morris yn datgan diddordeb)

Ysgol Feithrin Sarnau a Llandderfel

Hosbis Tŷ'r Eos

CFFI Meirionnydd

Ambiwllans Awyr Cymru

Cantref (Eilir Rowlands yn datgan diddordeb)

Sioe CFFI Cwmtirmynach

Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel

Ysgol Y Berwyn

## **Materion lleol.**

### **Llwybrau cyhoeddus yn ardal Glanrafon a Llandderfel.**

Derbyniwyd cwynion am nifer o lwybrau yn yr ardal a gofynnwyd i'r clerc eu pasio'n mlaen i Gyngor Gwynedd.

### **Ffordd mynwent Llandderfel.**

Derbyniwyd cwynion am gyflwr ffordd y fynwent. Yn dilyn trafodaeth gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at berchennog Penllan i weld os oedd posib cydweithio i wella cyflwr y ffordd.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai  
5ed yn Neuadd Sarnau am 7.30 y.h.**